# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (244)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 8 Chwefror 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

………………………

### 14.28
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.55
### Eitem 3: Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai: Polisi Dŵr

………………………

### Eitem 4: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 - *TYNNWYD Y CYNNIG YN ÔL*

### NDM4653 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 24.4

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2011.

………………………

### 15.24
### Eitem 5: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth

### NNDM4642 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud ag atebolrwydd llywodraeth leol o ran cyflogau, dileu'r ddyletswydd i hybu democratiaeth leol, dileu'r ddyletswydd o ran deisebau, cyflawni dyletswyddau digartrefedd drwy'r sector rhentu preifat a diwygio'r Awdurdod Gwasanaethau Tenantiaid yn Rhan(nau) 1 a 6 o'r Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 13 Rhagfyr 2010, i'r graddau y

mae’r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**15.33**
## Eitem 6: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch darpariaethau sy’n ymwneud â phwerau ymafael, cadw a fforffedu o dan is-ddeddfau rheoli da a llywodraethu yn Rhan 4 o’r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol

**NNDM4648 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â phwerau ymafael, cadw a fforffedu o dan is-ddeddfau rheoli da a llywodraethu yn Rhan 4 o’r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, fel y’i cyflwynwyd i Dŷ’r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 1 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**15.35**
## Eitem 7: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch darpariaethau sy’n ymwneud â Phanelau’r Heddlu a Throseddau yn Rhan 1 o’r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol

**NNDM4647 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â Phanelau'r Heddlu a Throseddau yn Rhan 1 o’r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, fel y’i cyflwynwyd i Dŷ’r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 15 | 23 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

………………………

**16.05**
**Eitem 8: Dadl ar y Gyllideb Derfynol**

**NDM4654 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.17, yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy e-bost ar 1 Chwefror 2011.

*Troednodyn:*

*Yn unol â'r darpariaethau perthnasol a gynhwysir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 27.19, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:*

*1. y datganiad ysgrifenedig sy’n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;*

*2. yr adnoddau y cytunir arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb floc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;*

*3. cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer cyllideb floc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau a awdurdodir i’w defnyddio yn y cynnig;*

*4. cysoniad rhwng y symiau a amcangyfrifir i’w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a’r symiau a awdurdodir i’w talu o’r Gronfa yn y cynnig; a*

*5. cysoniad rhwng yr adnoddau i’w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o’r Ddeddf a’r symiau a awdurdodir i’w talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).*

*Mae’r wybodaeth ychwanegol a ganlyn ar gael i’r Aelodau:*

- *nodyn esboniadol am newidiadau rhwng y cynigion yn y Gyllideb Ddrafft a’r cynigion yn y Gyllideb Flynyddol.*

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
**Canlyniad y bleidlais:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 6 | 11 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

## Eitem 9: Dadl ar rôl y Consortia Rhanbarthol – *TYNNWYD Y DDADL YN ÔL*

………………………

**17.08**
**Cyfnod pleidleisio**

**17.12 Pwynt o drefn**

Cododd Peter Black bwynt o drefn yn gofyn am eglurhad o'r goblygiadau yn deillio o'r ffaith nad oedd y Cynulliad wedi cytuno i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau ynghylch Panelau'r Heddlu a Throseddau yn Rhan 1 o'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Dywedodd y Llywydd mai dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad wrthod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Esboniodd y Llywydd mai cyfrifoldeb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yw cyfleu canlyniad y bleidlais i'r Gweinidog yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y Mesur Seneddol. Byddai hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth y DU ystyried ei safbwynt ymhellach mewn perthynas â'r darpariaethau perthnasol yn y Mesur Seneddol, yng ngoleuni barn y Cynulliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.13.

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 9 Chwefror 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**